



Cylchlythyr #20 SCHTh Gogledd Cymru – 19 Mai 2023  
OPCC North Wales Newsletter #20 – 19 May 2023

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ym Malchder Bae Colwyn

Ar 14 Mai, aeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) i'r digwyddiad Balchder Bae Colwyn cyntaf ynghyd ag aelodau o'i swyddfa a swyddogion Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y digwyddiad yn ddatiliad o'r gymuned LHDTQ+ ac yn llwyfan ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb.

Roedd SCHTh yn falch o fod yn noddwr i'r digwyddiad, a drefnwyd gan Gyda'n Gilydd dros Fae Colwyn. Siaradodd Andy â Newyddion ITV am y diwrnod a'r hyn mae'r digwyddiad yn ei olygu i Ogledd Cymru. [Gwylwch y fideo yma.](#)



## Office of the Police & Crime Commissioner at Colwyn Bay Pride

On May 14, North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin attended the first Colwyn Bay Pride event alongside members of his office and North Wales Police officers. The event was a celebration of the LGBTQ+ community and a platform for promoting equality.

The OPCC were proud to be a sponsor of the event, which was organised by Together for Colwyn Bay. Andy spoke to ITV News about the day and what the event means to North Wales. [Watch the video here.](#)

---

## CHTh yn ymweld ag enillwyr menter ariannu cymunedol

Dros y pythefnos diwethaf, mae Andy Dunbobbin wedi bod ar draws Gogledd Cymru yn cwrdd ag enillwyr rownd gyllido ddiweddaraf Eich Cymuned, Eich Dewis. Ymhlith y grwpiau buddugol yr ymwelwyd â nhw oedd Canolfan Gymunedol Llanfaes, Woody's Lodge Bae Colwyn, Clwb Beicio'r Rhyl a Phrosiect Kaleidoscope.

Mae cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn cynorthwyo prosiectau llawr gwlad ac mae'n derbyn cymorth gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru (PACT) a Heddlu Gogledd Cymru. Dros y deng mlynedd diwethaf mae cyfanswm o dros £500,000 wedi cael ei roi i dros 150 o brosiectau yn gweithio i leihau trosedd yn eu hardaloedd a chynorthwyo'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. [Darllenwch fwy am yr ymweliadau yma.](#)



## PCC visits winners of community funding initiative

Over the past two weeks, Andy Dunbobbin has been across North Wales meeting the winners of the latest Your Community, Your Choice round of funding. Amongst the winning groups visited were Llanfaes Community Centre, Woody's Lodge Colwyn Bay, Rhyl Cycling Club and the Kaleidoscope Project.

The Your Community, Your Choice fund supports grass-roots projects and is supported by the PCC, North Wales Police and Community Trust (PACT) and North Wales Police. Over the past ten years, a total of over £500,000 has been awarded to more than 150 projects working to reduce crime in their areas and to support the priorities in the Police and Crime Commissioner's Police and Crime Plan. [Read more about the visits here.](#)

---

## Cymhorthfa CHTh: Bangor, Gwynedd

Bydd Andy Dunbobbin yn cynnal ei gyfarfod cymhorthfa nesaf ym Mangor yn fuan. Bydd y cyfarfod yn galluogi pobl leol i drafod plismona yn eu cymunedau ac i godi unrhyw bryderon neu sylwadau sydd ganddynt gyda'r Comisiynydd a swyddogion heddlu lleol.

 Bangor (Tŷ Cwrdd y Crynwyr, Stryd y Deon)



 25 Mai PM

A oes gennych chi ddiddordeb mewn siarad â'r Comisiynydd? [Archebwch le yma.](#) Bydd lleoliadau pellach ar gyfer gweddill 2023 yn cael eu cyhoeddi maes o law.



## PCC Surgery: Bangor, Gwynedd

Andy Dunbobbin will soon hold his next surgery meeting in Bangor. The meeting will enable local people to discuss policing in their communities and to raise any concerns or comments they might have with the Commissioner and local police officers.

 Bangor (Quaker Meeting House, Dean Street)  
 25 May PM

Interested in speaking to the Commissioner? [Book a place here.](#)  
Further locations for the rest of 2023 will be announced in due course.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythrau.

You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?

Cysylltwch â ni drwy [socialmedia@northwales.police.uk](mailto:socialmedia@northwales.police.uk) i ddiweddarau eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?

Contact us via [socialmedia@northwales.police.uk](mailto:socialmedia@northwales.police.uk) to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru  
Pencadlys yr Heddlu  
Glan y Don  
Bae Colwyn  
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime  
Commissioner North Wales  
Police Headquarters  
Glan y Don  
Colwyn Bay  
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:

<https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd>

You can read our privacy policy here:

<https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy>

